**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 2 Medi 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J P Curtice | M Durke | B Hopkins |
| O G James | L R Jones | M B Lewis |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Damien Beech | Pennaeth Uned y Cyfnod Cynradd |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M A Langstone a Nick Williams

---

## 43 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 44 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

## 45 Goblygiadau a Pharatoi ar Gyfer y Cwricwlwm Newydd yn Ysgolion Abertawe.

Amlinellodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn nodi diwedd gwaith a chyfarfodydd y Pwyllgorau Datblygu Polisi dros y misoedd diwethaf.

Diolchodd i'r holl swyddogion, ysgolion a sefydliadau partner a oedd wedi mynychu'r gwahanol gyfarfodydd ac a gyfrannodd at adolygiad y pwyllgor.

Amlinellodd fod yr adroddiad yn anochel wedi'i ohirio oherwydd effaith enfawr COVID-19 ar y cyngor a'r Gwasanaeth Addysg yn benodol. Diolchodd i Swyddogion yr adran am eu cymorth wrth ddrafftio'r adroddiad.

Cyfeiriodd at yr enghreifftiau rhagorol ac eang o arfer da sydd eisoes i'w gweld yn ysgolion Abertawe, a nododd y dylai'r adroddiad hwn eu rhoi ar sail fwy ffurfiol wrth symud ymlaen.

Yna amlinellodd Helen Morgan-Rees y cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i ddrafftio'r adroddiad a chyfeiriodd yn fanwl at bob un o'r naw prif argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad.

Trafododd aelodau'r pwyllgor yr adroddiad a gwnaethant sylwadau am ei grynhoad, a gofynnon nhw gwestiynau amrywiol i'r swyddog sy'n gysylltiedig â'r adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn ystod ei adolygiad, ac ymatebodd y swyddog yn unol â hynny.

Croesawodd a chefnogodd y Pwyllgor yr adroddiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiad hwnnw a'i drafod yng nghyfarfod y Cabinet ar 17 Medi 2020.

## 46 Y Diweddaraf am Covid-19.

Rhoddodd Helen Morgan-Rees a Damien Beech ddiweddariad manwl a chynhwysfawr i'r pwyllgor ynghylch ymateb yr Awdurdod i'r cyfnod dan gyfyngiadau symud COVID-19 a'r cyfnod cau ac ailagor ysgolion wedi hynny.

Cyfeiriwyd at effaith gychwynnol cau ysgolion a'r effaith a gafwyd yn dilyn y cyngor gan Lywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn cael eu 'hadnewyddu' ac yn dod yn lleoliadau gofal plant brys i helpu i gefnogi'r rhai sydd mwyaf anghenus, gan gynnwys pobl sy'n ymwneud â'r ymateb uniongyrchol i argyfwng Coronafeirws megis y GIG a gweithwyr gofal ac allweddol.

Amlinellwyd, yn ystod y cyfnod cau ysgolion at ddibenion addysg statudol, y diwygiwyd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i holl bartneriaid ar draws y system addysg i gefnogi'r canlynol:

- diogelwch ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- iechyd a lles corfforol a meddyliol ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- gallu ein holl ddysgwyr i barhau i ddysgu; a
- throsglwyddo dysgwyr yn ôl i'r ysgol ac i gam nesaf eu dysgu pan ddaw'r amser.

Amlinellwyd y sefydlwyd Bwrdd Addysg Brys (BAB) ac y cynhaliwyd cyfarfodydd yn gyflym - roedd aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion o'r gyfarwyddiaeth addysg a phenaethiaid o'r sectorau cynradd ac uwchradd.

Dosbarthwyd gwybodaeth a chyngor i ysgolion gan y grŵp hwn, yn ddyddiol i ddechrau.

Yna creodd y BAB grŵp tasg a gorffen i adolygu'r asesiad risg a'r cynllun gweithredol gwreiddiol a roddwyd i ysgolion ar ddechrau'r cyfnod cau. Roedd y grŵp hwn yn

cynnwys penaethiaid, swyddogion, arweinyddiaeth ysgolion a chynrychiolaeth undebau llafur. Rhannwyd y ddogfennaeth ddiwygiedig ag ysgolion ac fe'i diweddarwyd yn barhaus fel rhan o gylch gwaith y grŵp tasg a gorffen i ailagor ysgolion.

Yna crëwyd Bwrdd Cynllun Parhad Dysgu rhanbarthol (PD) ac ymunodd swyddogion o'r timau cyfnod cynradd ac uwchradd â'r bwrdd i gynnig cymorth a chyngor.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 3 Mehefin y byddai pob ysgol yn ailagor i gynnig cyfle i'w dysgwyr fynychu sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' (ADiFaPh). Cynigiodd ysgolion y sesiynau ar gyfradd lai gan ystyried y cyngor a'r wybodaeth wyddonol a oedd ar gael ar y pryd a'r mesurau yr oedd angen eu rhoi ar waith i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo posib.

Er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i ysgolion o nifer y disgyblion i'w disgwyl, cyhoeddodd y grŵp tasg a gorffen ail-agor ysgolion arolwg i holl rieni a gofalwr Abertawe. Gofynnodd yr arolwg a fyddai rhieni a gofalwyr yn anfon eu plant yn ôl i'r ysgol ar gyfer sesiynau ADiFaPh, beth yr hoffent ei weld ar waith o ran mesurau diogelwch a beth oedd eu pryderon. Hefyd, manteisiodd ar y cyfle i ofyn barn ymatebwyr am y cynnig dysgu o bell gan ysgol eu plentyn.

Amlinellwyd a chanmolwyd hefyd y gwaith a'r paratoi sylweddol a helaeth a wnaed gan swyddogion wrth baratoi'r asesiadau risg angenrheidiol cyn yr ADiFaPh.

Mae'r broses asesu risg a'r cyngor yn parhau yn ystod y tymor newydd, ond cyrff llywodraethu ac uwch dimau rheoli ysgolion sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol.

Cynhaliwyd arolwg 'Coronavirus and Me' hefyd, a oedd ar gyfer plant a phobl ifanc ac a oedd yn ceisio eu barn ar effaith y pandemig ar eu lles a'u hagweddau at ddychwelyd i'r ysgol.

Amlinellwyd canlyniadau'r ddau arolwg yn fanwl yn yr adroddiad a rhannwyd eu canlyniadau gydag ysgolion, gyda'r adran hefyd yn cynnal ymarfer helaeth ac yn paratoi canlyniadau data ysgol yn ôl ysgolion a anfonwyd i ysgolion unigol.

Amlinellwyd a thrafodwyd pwysigrwydd cael pobl ifanc i ddychwelyd i ysgolion a cholegau yn nhymor yr hydref am yr holl resymau a ffactorau a amlinellwyd ac a nodwyd yn yr adroddiad.

Mae gwell cyswllt, cydweithio a gwerthfawrogiad o rolau rhwng adrannau'r awdurdod a sefydliadau allanol/partner hefyd wedi bod yn fuddiol drwy gydol y cyfnod dan gyfyngiadau symud ac wedi hynny oherwydd trefniadau cydweithio gwell.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor i'r Swyddogion am eu hadroddiad manwl a llawn gwybodaeth ar y mater hwn.

**47 Cynllun Gwaith 2019/2020.**

Adroddodd y Cadeirydd fod y Cabinet i fod i ystyried adroddiad yn ymwneud â COVID ar 17 Medi, a allai effeithio ar waith y PDP.

Nododd, o ganlyniad, y byddai'n ddoeth canslo'r cyfarfod PDP a drefnwyd ar gyfer 9 Medi er mwyn ystyried unrhyw wybodaeth a phynciau ychwanegol a amlygwyd gan y Cabinet wrth lunio'i gynllun gwaith ar gyfer 2020-2021 yng nghyfarfod 14 Hydref.

**Penderfynwyd** y dylid canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Medi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.45 pm

**Cadeirydd**